

Arwain y Dysgu

Darllen grŵp

Tachwedd 2024



Beth yw darllen grŵp / darllen dan arweiniad?

Mae darllen grŵp yn weithgaredd pwysig sy'n cefnogi datblygiad llythrennedd plant.



Darllen grŵp yw pan fydd grŵp bychan o blant (fel arfer rhwng 4 a 6) yn dod at ei gilydd gyda'r **athro** neu **gynorthwydd** neu'n **annibynnol** fel grwp i ddarllen llyfr neu destun.



Maen nhw'n darllen yn uchel, yn unigol neu gyda'i gilydd, ac yn trafod yr hyn maen nhw'n ei ddarllen.



Gallant hefyd ymgymryd â gweithgareddau darllen yn dawel ond **gydag arweiniad**.

Pam darllen grŵp?

Gwella sgiliau darllen: Mae'n helpu plant i ymarfer eu sgiliau darllen yn rheolaidd, megis darllen yn gywir, mynegiant, a sillafu.

Deall cynnwys: Mae'n annog plant i feddwl am ystyr y testun a dysgu geiriau newydd.

Annog cydweithio: Mae'n hyrwyddo sgiliau gwaith tîm wrth drafod syniadau gyda chyfoedion.

Sgiliau gwrando: Mae plant yn dysgu gwrando ar eraill yn darllen ac yn rhannu eu barn.

Sut mae'n cael ei drefnu?

1

Lefelau gallu: Fel arfer, mae plant yn cael eu rhoi mewn grwpiau yn ôl eu gallu i ddarllen, fel bod y gwaith yn addas iddyn nhw.

2

Arweiniad athro: Bydd athro neu gynorthwydd yn helpu i ddarllen ac yn gofyn cwestiynau i annog dealltwriaeth.

3

Llyfrau neu destunau: Gall gynnwys llyfrau storïau, darnau o wybodaeth, neu hyd yn oed barddoniaeth.

Enghreifftiau o'r math o weithgareddau

Darllen darn yn uchel yn ei dro.

Trafod beth sy'n digwydd yn y stori.

Ateb cwestiynau am gymeriadau
neu ddigwyddiadau.

Defnyddio lluniau yn y llyfr i ddyfalu
beth fydd yn digwydd nesaf.

Gweithgaredd darllen a deall

Lev Vygotsky (1896-1934) - Theori Datblygiad Cymdeithasol

Mewn darllen grŵp, gall plant ddysgu gan ei gilydd wrth i rai aelodau o'r grŵp gynnig cymorth neu arweiniad i'r lleill, gan eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd.

Jean Piaget (1896-1980) - Theori Gwybyddol

Trwy ddarllen a thrafod mewn grŵp, mae plant yn adeiladu gwybodaeth ar sail eu dealltwriaeth bersonol, tra hefyd yn addasu syniadau newydd wrth glywed safbwyntiau eraill.

Albert Bandura (1925-2021) - Theori Dysgu Cymdeithasol

Mae plant yn arsylwi sgiliau darllen cyfoedion ac yn dysgu trwy efelychu dulliau, megis mynegiant neu ddarllen gyda llif da.

David Johnson a Roger Johnson - Theori Dysgu Cydweithredol

Mewn darllen grŵp, mae aelodau'n cydweithio i ddatrys problemau deall testunau, gan greu amgylchedd cefnogol sy'n gwella sgiliau iaith a darllen.

Mae darllen grwp nid yn unig yn cryfhau sgiliau darllen ond hefyd yn datblygu sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth mewn dysgwyr.

Adnoddau darllen grŵp


Cyfres Dwlu Darllen [Dwlu Darllen](#)



Dyma becyn darllen ar gyfer disgyblion y CS, CA2 a rhai disgyblion ym mlynnyddoedd 7 ac 8. Mae pob uned yn cynnwys testunau ffuglen a ffeithiol a chyfes o gwestiynau yn seiliedig ar y testunau unigol. Mae'r unedau wedi eu gosod mewn camau (stage not age), felly gallwch ddewis a dethol testunau sy'n addas ar gyfer eich disgyblion.

Mae'r pecyn yn addas ar gyfer darllen unigol, neu fel testunau darllen grŵp. Gellid defnyddio'r pecyn ar gyfer gwersi ar lein fel testunau darllen grŵp ac ymateb llafar i ddarllen.

Cyfres Lobscows



Cardiau darllen amrywiol



Nos Da

Wyth o'r gloch
Mam yn gweiddi
"Amser gwely"
Dringo'r grisiau
Dadwisgo
I mewn i'r bath
Nofio a sblashio
Brwsio dannedd
Neidio i'r gwely
Mwynhau stori
Sws i mami
Cwts i tedi
Wela i chi fory
A-a-a-a-a-aa
Nos da.

Nia Howard
(Ysgol Gymraeg y Castell,
Cwm Rhymni)
Cystadleuaeth Barddoniaeth
Blynnyddoedd 1 & 2

Nia Howard

Darllen a deall: Barddoniaeth gyfoes



Gweithgareddau Darllen

Lefel 2

"Dysgu sut i ddarllen yw'r sylfaen i ddyfodol addysgol llwyddiannus...."
ESTYN

Dyna yw'r nêd! Yma ceir nifer o weithgareddau sy'n rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau darllen eich disgyblion gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu eu dealltwriaeth o'r hyn a ddarllenant. Mae yma nifer o ffurfiau a gweithgareddau gwahanol i'w dewis a'u dethol yn ôl anghenion eich disgyblion. Ar ddechrau'r gweithgareddau ceir tudalen gynnwys sy'n nodi'r sgiliau penodol a ganolbwyntir arnynt, a'r rhai hynny, wrth reswm, yn deillio o'n Cwricwlwm Cenedlaethol.



Nos Da

gan
Nia Howard


Darllen a deall: Barddoniaeth gyfoes




Darllenwch y gerdd ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth yw teitl y gerdd?
2. Pwy yw'r bardd?
3. Faint o'r gloch mae hi'n mynd i'r gwely?
4. Beth mae hi'n gwneud yn y bath?
5. Beth mae hi'n gwneud cyn *neidio i'r gwely*?
6. Pa eiriau sy'n odli gyda *mami*?
7. Beth mae hi'n ei roi i tedi?
8. Beth yw ystyr *A-a-a-a-a-a-aa* yn y llinell olaf ond un?
9. Ydych chi'n hoffi'r gerdd? Pam?



[Mets Maesllan](#)





Ditectif Geiriau

Llyfrau a'r gweithgareddau

1

2

3

4

5

6

7

8

9

10

11

12

1. Y gair gorau

1.

Darllenwch y frawddeg yma.

Mae'r rhaglen dywydd ar y teledu'n dweud y bydd hi'n _____ yfory oherwydd bydd hi'n sych ac yn heulog iawn.

Dewiswch **un**.

oer ☐ ddiflas ☐ wlyb ☐ braf ☐

2.

Atebwch y cwestiwn yma.

Sut mae ysgrifennu 750? _____

Dewiswch **un**.

saith cant ☐ wyth cant ☐ saith cant pum deg ☐ wyth cant pum deg ☐

1.

Lliwiwch deitl y testun yma.

Y draenog

Ydych chi wedi gweld draenog yn yr ardd erioed? Anifail bach ydy e – tua 15cm - 30cm. Mae ei gorff yn frown ac yn bigog ac mae ei lygaid a'i glustiau'n fach. Mae ei drwyn yn eitha hir. Mae ganddo gynffon byr – tua 3mm.

Yn y nos mae'r draenog yn dod allan fel arfer. Mae'n dod allan i chwilio am fwyd – pryfed, malwod, cig anifeiliaid marw, madarch, gwreiddiau ac aeron.

2.

Gorffennwch y brawddegau isod drwy lusgo'r gair cywir i mewn i'r bwlch.

hir


byr

pigog

Mae gan y draenog gorff .

Mae gan y draenog drwyn eitha .

Mae gan y draenog gynffon .



Reciprocal reading / Darllen cilyddol

Mae **darllen cilyddol** yn strategaeth ddysgu lle mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall testun, gan ddefnyddio dulliau rhyngweithiol.

Mae'n cynnwys pob unigolyn yn chwarae rhan weithredol wrth ddarllen a thrafod cynnwys y testun.

Yn aml, mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu sgiliau darllen a dealltwriaeth mewn ffordd sy'n annog cydweithio a meddwl yn feirniadol.

Nodweddion allweddol darllen cilyddol

Rhannu'r broses ddarllen: Mae'r grŵp yn cymryd troeon i ddarllen darnau o'r testun yn uchel neu'n dawel.

Rolau penodol: Gall aelodau'r grŵp chwarae rolau gwahanol i hwyluso'r broses ddarllen a thrafod. Er enghraifft:

- **Crynhoydd:** Yn crynhoi'r brif syniad o'r testun.
- **Cwestiynydd:** Yn gofyn cwestiynau i archwilio'r cynnwys yn ddyfnach.
- **Goleuydd:** Yn egluro geiriau neu syniadau anodd.
- **Daroganwr:** Yn ceisio rhagweld beth fydd yn digwydd nesaf.

Trafodaeth: Mae aelodau'n siarad am y testun i ddeall ei ystyr yn well.

Cymorth cydweithredol: Mae'r dull hwn yn annog dysgwyr i helpu ei gilydd i ddod yn ddarllenwyr mwy hyderus.

Sut mae darllen cilyddol yn edrych yn y dosbarth?



Manteision darllen cilyddol

Gwella dealltwriaeth: Mae'r dull yn helpu plant i feddwl yn ddyfnach am gynnwys y testun.

Datblygu sgiliau cymdeithasol: Mae trafod a gweithio mewn grŵp yn datblygu sgiliau cyfathrebu a thîm.

Cynyddu annibyniaeth: Trwy gymryd rolau gweithgar, mae plant yn dysgu i ddadansoddi testun yn annibynnol.

Cefnogi pawb: Mae'r grŵp yn gweithio gyda'i gilydd, felly mae'n cefnogi dysgwyr gyda lefelau darllen gwahanol.

Predict



I predict
(title/
subheading/
chapter) will be
about

Would anyone
like to add to my
prediction or ask
any questions?

©Angela Ehmer

Read



Let's read to
check the
prediction/s and
find out more.

Clarify




Is there anything
you need to
clarify, such as
tricky words,
phrases or ideas?

Ask Questions and Discuss



What did we
learn?

Sum up



..... (Title/sub
heading/
chapter) was
about

Would anyone
like to add to my

The Boss



You are the organizer.
Assign your group jobs.
Remind everyone what their role is.
Introduce the text.
Does anyone need help or encouragement?

Look!
Is everyone
joining in?

Remember
Be not let anyone
speak but keep pace.

The Questioner



Ask questions about the text.
Why did the character...?
How was the character feeling?
Who is...? When...? Who...?
What if...? Where...? Will...

Look for clues
What will help
the others
understand?

Remember
What clues does the
author / illustrator use?

The Summariser



Retell what you have read in your own words.
The main idea. The problem was.
The story takes place in. This lead to.
The main characters. The resolution was
first, then, next, last.

Clues
Important
information only

Remember
Keep to the facts.
Keep it short.

The Clarifier



There is a word I cannot read.
I do not understand this sentence.
I am confused by this part.
Share clues - others may have missed them.
Do you know of another situation like this?

Look for clues
What helped you
understand?

Remember
Look for context, you
will get more information.
Look for hints or words
with a suffix or prefix.

The Predictor



I think...
I predict...
I imagine...
I suppose...
I wonder if...

Look for clues
title
illustrations

Remember
You can change your
mind as you go.

Llyfrau cyfrwng Gymraeg ar gyfer darllen cilyddol




Peniarth
.cymru

Camau Cynnydd ▾


Cyfresi ▾

Cyfres Cnoi Cil



Cnoi Cil: Paul Robeson

£9.99




Cnoi Cil: Bai ar Gam?

£9.99



Cyfres Cnoi Cil

£50.00




Cnoi Cil: Y Royal Charter

£9.99



Cymru o'r Bêl Gron



Rali Cymru GB



Pleidiol Wyf i'm Gwlad